## Grant Cist Gymunedol – Datganiad i'r Wasg

### <u>DATGANIAD I'R WASG:</u> Galw ar grwpiau cymunedol i ymgeisio am arian sydd ar gael i gefnogi eu gwaith yn Sir y Fflint



*Mae Fferm Holistaidd Cae Rhug yng Ngwernaffield wedi elwa o grant Cist Gymunedol Sir y Fflint i helpu tuag at gostau offer a ddefnyddir gan wirfoddolwyr sy'n dysgu sut i dyfu llysiau.*

Mae Grwpiau Cymunedol a sefydliadau nad ydynt er elw sy'n cynnal gweithgareddau, adeiladau neu ofodau er budd pobl leol yn Sir y Fflint yn cael eu gwahodd i ymgeisio am gyfran o'r cyllid o £45,500, sydd wedi ei neilltuo eleni, i gefnogi eu gwaith.

Mae grantiau Cist Gymunedol Sir y Fflint o hyd at £1,000 ar gael i ymdrin â hyd at 75 y cant o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosiect newydd neu fenter, digwyddiad, mân atgyweiriadau a phrynu offer hanfodol, gan gynnwys cyflenwadau sydd eu hangen i weithredu mewn dull sy'n ddiogel o ran Covid.

Caiff y pot o arian ei neilltuo gan Gyngor Sir y Fflint a chaiff y cynllun grant ei weinyddu gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC), y sefydliad sy'n hybu gweithredu gwirfoddol a chymunedol yn y sir. Mae maint y pot ariannu wedi cynyddu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 ac felly mae cymorth ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol a sefydliadau a hoffai o bosibl helpu i fynd i'r afael ag angen sydd wedi codi yn ystod y pandemig, neu i ddod â phobl leol ynghyd unwaith eto wrth i'r cyfyngiadau Covid lacio. Hefyd bydd yn helpu i ymdrin â chostau gweithredu mewn dull sy'n ddiogel o ran Covid.

Dywedodd Swyddog Allgymorth Ariannu Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Heather Hicks "Mae yna botensial mawr i'r cyllid hwn i gefnogi mwy o weithgaredd cymunedol nag erioed yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cysylltwch os gwelwch yn dda os oes gennych syniad am ddigwyddiad cymunedol, prosiect neu fenter, neu os yw eich grŵp cymunedol yn ei chael yn anodd i ariannu gwelliannau bach i'ch safle neu fesurau sydd eu hangen i gadw eich ymwelwyr yn ddiogel. F e fydd cefnogaeth o ran llunio cais yn cael ei chynnig i'r rhai sydd angen hynny."

Gall ymgeiswyr ddod o hyd i ffurflen gais, meini prawf a chanllawiau o dan "Grantiau Cyfredol" yn yr adran "Cyllid Cynaliadwy" ar wefan Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, https://www.flvc.org.uk/cy/. Neu fel arall fe allant anfon e-bost at Heather Hicks i'r cyfeiriad hwn heather.hicks@flvc.org.uk, neu ffonio 01352 744004.

Yn fwyaf diweddar mae grantiau wedi eu dyfarnu i helpu tuag at gostau peiriant creu anwedd ar gyfer diheintio, diheintydd dwylo, offer chwaraeon, gwelliannau i adeiladau ac atgyweiriadau.